

FFYDD, GOBAITH A CHARIAD

Llefarydd:

'Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r dyn anwir ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth.'

Gweddiwn:

Diolchwn, ein Tad, am anogaeth rasol dy Air inni dy geisio tra bo cyfle gennym. Yn dy drugaredd dyro inni ddoethineb i wneud hyn yn yr oedfa hon, ac i'th addoli mewn prydferthwch sanctaidd. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 331 – *Pa le, pa fodd dechreuaf*

Cyd-ddarllen: Salm 130

Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 571 – *Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni*

Llefarydd:

Heddiw fe seiliwn ein myfyrdod ar dri gras yr Efengyl, sef ffydd, gobaith a chariad. Mae un esboniwr yn clymu'r tri gras hyn efo'i gilydd trwy ddweud mai ffydd a gobaith yw adenydd y Cristion, ac mai chariad yw'r egni bywiol sy'n cynnal ac yn gyrru'r Cristion ymlaen ar daith bywyd.

P'run bynnag am hynny, mae llawer wedi cysylltu'r tri gras â gwahanol bersonau yn y Testament Newydd. Tybed â pha rai y byddech chi yn eu cysylltu? Wel, heddiw fe gysylltwm **ffydd** â neges Paul, **gobaith** â neges Pedr, a **chariad** â neges Iwan.

Fe ddechreuwn ein myfyrdod gyda 'ffydd' yn ôl dealltwriaeth yr Apostol Paul. Yn ddiamheuaeth y mae 'ffydd' yn un o eiriau mawr yr Apostol. Gadewch inni wrando ar ei neges yn yr adnodau canlynol:

Darlleniad:

'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau drwy ffydd, y mae gennym feddiant ar heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwyddo ef, yn wir, y cawsom ffordd, trwy ffydd i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo.'

'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd; nid eich gwaith chwi yw hyn, rhodd Duw ydyw.'

'Yng Nghrist Iesu ein Harglwydd, a thrwy ffydd ynddo, y mae gennym hyder i ddod at Dduw yn ffyddiog.'

'Yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid yn ôl golwg.'

Llefarydd:

Mae'r adnodau a ddarllenwyd yn dangos mawredd yr Apostol Paul fel diwinydd Cristnogol a'i allu i dreiddio yn ddwfn i fêr yr Efengyl. Ei fyrdwn yw mai trwy ffydd yn Iesu Grist yn unig, a'r hyn a wnaeth drosom ar groes Calfaria, y deawn yn Gristnogion. Yr oedd Paul yn ddyn rhinweddol iawn a dysgedig, ond gwyddai nad trwy ei ddysg na'i allu personol i fyw yn dda y daeth yn Gristion ond trwy waith gras ei Waredwr Iesu Grist yn ei fywyd. Credai hyn yn angerddol, fel y gwelwn yn ei neges i Eglwys Corinth:

'A minnau, pan ddeuthum atoch, frodyr, ni ddeuthum fel un yn rhagori mewn huodledd neu ddoethineb, wrth gyhoeddi i chwi ddirgelwch Duw. Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio.'

Y mae gwir ffydd yn Iesu Grist yn cynnwys ymddiriedaeth, sef yr elfen honno sy'n peri inni roi ein bywyd yng ngofal Iesu Grist. Mae hyn yn ein hatgoffa am Ffrancwr yn cyflawni'r gamp fawr o gerdded dros raeadr

y Niagara ar wifren. Un diwrnod, wrth syllu uwchben y dyfnder mawr, fe heriodd cyfaill iddo gerdded dros y rhaeadr gyda berfa o'i flaen, a dyn yn eistedd ynddi.

'Beth?!', meddai'r Ffrancwr, 'wyt ti'n credu y gallaf wneud hynny?'

'Ydw,' meddai'r cyfaill.

'lawn,' meddai'r Ffrancwr, 'mi gei di felly eistedd yn y ferfa!'

Rwy'n siŵr eich bod yn deall yr ergyd, sef fod gwir ffydd yn golygu gweithredu ymddiriedaeth. Onid hynny yw'r Ffydd Gristnogol, sef gweithredu ymddiriedaeth lwyr yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac yng ngallu ei gariad diollwng tuag atom? Meddai Paul:

'Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist sydd yn fy nerthu i.'

Fel yr Apostol Paul fe ddaeth Martin Luther, y Diwygiwr Protestannaidd, hefyd i ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ffydd. Gofidiai yn fawr am gyflwr ysbrydol yr Eglwys gyda'i phwyslais ar brynu iachawdwriaeth trwy weithredoedd da, ac osgoi mynd i uffern drwy roi symiau mawr o arian i'r Eglwys. Yn ôl Martin Luther roedd arweinwyr Eglwys Rhufain yn cyfeiliorni'n fawr, ac yn cadw'r werin bobl yn nhywyllwch eu pechod. Ni allodd gadw yn dawel, ac yn ei brotest ddewr yn Wittenberg, cyhoeddodd nad trwy'r bocs arian ac adrodd paderau diddiwedd y daw dyn yn Gristion ond trwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, a fu farw drosto ar groes Calfaria. Cydiodd y neges hon fel tân yng nghalonau pobl, a pheri diwygiad mawr drwy holl wledydd Ewrop.

Yr emyn sy'n cyfleu ffydd y Cristion a'i ymddiriedaeth yn yr Arglwydd Iesu Grist yw emyn ardderchog Williams Pantycelyn. Fe ganwn yr emyn hwn yn awr.

Emyn: 702 – *Arglwydd, arwain drwy'r anialwch*

Gweddiwn:

O Dduw ein Tad, helpa ni i nesáu atat mewn ysbryd ffydd yn Iesu Grist, ac i weddio dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Fe ddywed dy Air wrthym na welodd neb Dduw erioed, ond er hynny, fe gredwn ynot ti ar

sail yr hyn a glywsom ac a welsom ym Mherson dy Fab annwyl Iesu Grist. Gweddiwn ar i ti gryfhau ein cred yn y fath fodd fel y bydd ein hymddiriedaeth yn llwyr ynot ti.

*'Er gwanned fy ffydd
Enillaf y dydd,
Mae Ceidwad pechadur yn fyw.'*

Gweddiwn dros bawb sy'n teimlo eu ffydd yn wan ac yn annigonol yn wyneb profedigaethau a thrallodion bywyd. O Dad, cod eu golygon atat ti; goleua eu deall, dyfnha eu ffydd, a phlanna yn eu calonnau ymddiriedaeth sicr y byddi gyda nhw ar hyd y daith.

Gweddiwn ar i'th Eglwys heddiw lynu'n ffyddlon wrth y gwirionedd yn Iesu Grist, a chyflwyno neges dy Air yn effeithiol i'n byd. Yn dy drugaredd gwna ninnau hefyd yn dystion gloyw ar air, ymddygiad a gweithred. O Dad, cryfha ein ffydd, a bywha ni, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 733 – *O am deimlo cariad Iesu*

Llefarydd:

Fe symudwn ymlaen yn awr o ffydd yn ôl dealltwriaeth Paul i obaith yn ôl dealltwriaeth Pedr. Dywed Pedr yn ei lythyr cyntaf:

'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.'

Pan ysgrifennodd Pedr ei lythyrau roedd yr Eglwys Gristnogol yn mynd trwy gyfnod o erledigaeth chwerw. Roedd nifer o'r arweinwyr wedi cael eu merthyru ac roedd llawer o'r aelodau'n cael eu herlid yn ddi drugaredd gan weision Nero, yr Ymerawdwr Rhufeinig. Mewn geiriau eraill, roedd cyffesu Crist yn Arglwydd yn y cyfnod hwn yn gyfystyr â rhoi eich bywyd mewn perygl parhaus. Yr oedd Nero yn benderfynol o roi diwedd ar yr Eglwys Gristnogol, ac fe barodd hyn lawer o bryder yn yr eglwysi, ac ofn mawr y caent eu difa'n llwyr.

Wel, yn ei lythyr mae Pedr yn cysuro ei gyd-Gristnogion dioddefus, ac yn eu hannog i angori eu gobaith yn llwyr yn Iesu Grist. Gadewch inni wrando ar ran o lythyr Pedr sy'n tystio i'r gobaith bywiol yng Nghrist.

Darlleniad: Llythyr cyntaf Pedr 1: 3–9

Llefarydd:

Fel yn y ganrif gyntaf, y mae Cristnogion ar hyd y canrifoedd wedi cael eu herlid yn ddirugaredd, ac mae hyn yn parhau i ddigwydd hyd heddiw mewn rhai rhannau o'r byd. Yr hyn sy'n dwysáu'r sefyllfa yw fod Cristnogion, neu'n gywirach, pobl sy'n honni ffydd yn Iesu Grist, yn erlid ei gilydd hyd at waed. Mae hyn wedi digwydd yng Ngogledd Iwerddon ac yng ngwledydd Prydain, gan gynnwys Cymru yn y gorffennol, ac yn naturiol y mae hyn yn ein tristáu yn fawr.

'Does rhyfedd felly, fel y dywedodd rhyw bregethwr, fod chwaer 'Gobaith' wedi llethu llawer o Gristnogion erioed. Tybed a glywsoch amdani ryw dro, a thybed a wyddoch ei henw? Ie, ei henw yw Ann – Ann Obaith!

Mae'r chwaer hon yn gallu achosi llawer o broblemau inni. Mae'n abl i'n gwneud yn gwynfanus ein hysbryd ac yn feirniadol o bobl eraill. Yn ogystal, mae'n llwyddo i'n gwneud yn ddifater, a'n temtio i daflu dŵr oer ar ymdrech pawb arall sy'n ceisio gweithio dros y ffydd.

Onid yw ysbryd sinigaidd o'r fath yn gwadu'r elfen holl bwysig sydd yn y bywyd Cristnogol, sef ein bod yn gwrthod rhoi'r ffidil yn y to? Pam? Wel, oherwydd mai eiddo Duw yn Iesu Grist yw'r fuddugoliaeth derfynol. Dyma'n cred a'n gobaith ni. Y mae'r Cristion yn gobeithio nid yn wangelon ond gan gredu'n gadarn:

'fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sy'n caru Duw.'

Gŵr a wnaeth hynny oedd John Bunyan. Yn ystod ei fywyd treuliodd ddeuddeng mlynedd yn y carchar yn Bedford oherwydd ei ddaliadau Cristnogol. Ond yn y carchar diflas hwnnw fe ysgrifennodd un o lyfrau mawr y profiad Cristnogol, sef **Taith y Pererin**.

Yn y llyfr hwn mae John Bunyan yn disgrifio bywyd anturus y Cristion o ddinas colledigaeth i'r ddinas nefol. Ar y daith y mae'r Cristion, medd Bunyan, yn wynebu llawer o demtasiynau a pheryglon, ond gwna hynny yn fuddugoliaethus. Y mae ei Waredwr Iesu Grist yn gydymaith cryf iddo, a chyda'r 'gobaith tragwyddol' yn ei enaid mae'r Cristion yn teithio 'mlaen i gyfeiriad y gogoniant diderfyn. Gorffennwn ein sylwadau ar 'obaith' gyda Williams Pantycelyn:

*'Nid oes terfyn ar fy ngobaith,
Cyrraedd mae ymlaen o hyd;
Gyda'r Duwdod mae'n cydredeg,
Dyddiau'r ddau sydd un ynghyd:
Annherfynol
Ydyw fy llawenydd mwy.'*

Emyn: 499 – *Cefais olwg ar ogoniant*

Llefarydd:

Rydym yn cloi ein myfyrdod gyda'r gras mwyaf, sef cariad yn ôl dealltwriaeth loan. Yn ei Efengyl rhoddodd loan le amlwg iawn i gariad Duw trwy ddatgan iddo:

'garu'r byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'

Yn yr adnod fawr hon, gwelwn nad haniaeth [*abstract*] yw cariad i'r Cristion ond Person – '*Duw cariad yw.*' Dysgwyd yr adnod fechan hon inni yn blant, a chynhwysa'r gwirionedd mwyaf y gallwn ei ddweud am Dduw. Felly, nid gair sentimental yw cariad i'r Cristion, ond cariad Duw ym Mherson ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist. Fel yr Efengylwyr eraill, gwêl loan gariad Duw yn disgleirio yng nghanol tywyllwch croes Calfaria, a thystia i Iesu Grist trwy ei gariad anniffoddadwy orchfygu pechod, angau a'r bedd.

Yn ei lythyrau hefyd fe ysgrifenna loan yn odidog am gariad Duw yn Iesu Grist, ac yn yr adnodau a ddarllenir yn awr anogir ni i ymateb i feddyginiaeth ei gariad ac i garu ein gilydd.

Darlleniad: Llythyr cyntaf Ioan 4: 7–12

Llefarydd:

Y mae'r adnodau hyn yn ein codi i dir uchel iawn yn ysbrydol. Yng nghariad Duw yn Iesu Grist y mae'r feddyginiaeth i bawb ohonom, a thrwy nerth ei gariad y llwyddwn i garu ein gilydd. Y mae Cristnogion o bob cefndir ac iaith wedi gwneud hynny ar hyd yr oesau. Ac oni welsom ninnau hefyd sglein cariad Iesu Grist ym mywydau pobl? Oni welsom ei gariad ym mherthynas gŵr a gwraig, a'r modd y maent yn aberthu er mwyn eu plant, a thro arall, oni welsom aberth plant yn gofalu am eu rhieni yn eu gwendid a'u henaint?

Datguddia Iesu Grist ei gariad hefyd ym mywydau ei ddilynwyr sy wedi aberthu'r cyfan er ei fwyn. Daw nifer o seintiau'r oesau ar unwaith i'r meddwl, megis Dewi Sant a Ffransis o Assisi o'r gorffennol pell, a hefyd Dietrich Bonhoeffer a'r Fam Teresa yn ein dyddiau ni. Gorffennwn ein sylwadau heddiw gyda'r Fam Teresa, a wnaeth gymaint i ddangos cariad Iesu Grist i bobl dlawd Calcutta. Yn ei sgwrs â'i chyd-leianod, dywedodd:

'Byddwch yn garedig ac yn drugarog. Peidiwch â gadael i neb ddod atoch heb iddynt fynd oddi wrthyich yn teimlo'n well ac yn hapusach. Byddwch yn fynegiant byw o gariad Duw: cariad Duw yn eich wyneb, cariad Duw yn eich llygaid, cariad Duw yn eich gwên, a chariad Duw yn eich cyfarchiad cynnes. Yn y slymiau, nyni yw goleuni cariad Duw i'r tlodion. Rhowch wên hapus bob amser i'r plant, i'r tlodion, i bawb sy'n dioddef ac sy'n unig. A rhowch, nid yn unig eich gwên a'ch gofal, ond hefyd eich calon yn llawn cariad.'

Ni allwn ond ategu hyn yn ein calonnau, a rhoddi'r diolch a'r clod a'r gogoniant i Iesu Grist ein Gwardwr bendigedig. Amen.

Gweddiwn:

Diolchwn iti, ein Tad, am fendithion yr oedfa hon, a'r cyfle a gawsom i adnewyddu ein ffydd a'n gobaith ynot ti, a phrofi o'r newydd rym dy gariad yn Iesu Grist.

*'Dyma gariad, pwy a'i traetha?
Anchwiliadwy ydyw ef;
Dyma gariad, i'w ddyfnderoedd
Byth ni threiddia nef y nef.'*

O annwyl Arglwydd Iesu, cyffeswn mor fach yw ein cariad tuag atat, ac mor oer yw ein calon. Yn dy drugaredd dyro inni olwg newydd ar dy wedd, a phrofiad newydd, fel y teimlwn wres dy gariad yn toddi ein calon garreg ac yn adnewyddu ein hysbryd o'n mewn.

Diolchwn, ein Tad, am bawb sy'n amlygu dy gariad yn eu bywydau, ac sy'n byw i ddangos Iesu a gwasanaethu eu hoes. O Dad, bendithia hwy â'th bresenoldeb, a'u nerthu fel ninnau i gyfieithu ein ffydd a'n gobaidh ynot ti yn weithredoedd o gariad. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 205 – *Dyma gariad fel y moroedd*

Y Fendith:

'I'r hwn sydd yn ein caru ni ac a'n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â'i waed, ac a'n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad, iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu byth bythoedd! Amen.'